# Y Sioe Fawr
## gan Anni Llŷn
## The Show

1. Roedd Cyw a'r criw wedi mynd i'r Sioe Fawr yn Llanelwedd ac roedd pawb yn llawn cyffro. Roedd Cyw eisiau chwarae gêm ac roedd wedi paratoi rhestr o bethau i'w gweld yn y Sioe Fawr.

2. "Ar ôl i chi ei weld, rhowch sticer seren ar eich rhestr!" meddai.
Ac i ffwrdd â phawb yn hapus.

3. Roedd buwch ar y rhestr. Aeth Plwmp, Deryn a Jangl i'r sied wartheg. Gwelson nhw lo bach a buwch. Felly, dyma nhw'n rhoi sticer seren wrth y fuwch ar y rhestr.

4. Roedd dafad ar y rhestr. Aeth Bolgi a Llew i'r sied ddefaid. Gwelson nhw oen bach a dafad. Felly, dyma nhw'n rhoi sticer seren ar y rhestr.

5. Roedd mochyn a cheffyl ar y rhestr hefyd. Gwelodd Cyw fochyn a gwelodd Llew geffyl. Felly, dyma nhw'n rhoi dau sticer seren ar y rhestr. Ond roedd Triog wedi mynd i chwilio am rywbeth arall.

6. Roedd Triog wedi gweld bod Jac Codi Baw melyn ar y rhestr. Aeth i chwilio amdano. Gwelodd feic modur glas a thractor coch ond dim un Jac Codi Baw.

7. Ar ddiwedd y prynhawn aeth pawb i'r stand er mwyn gwylio sioe yn y Prif Gylch. Eisteddodd pawb yn gyfforddus. Yn sydyn, gwelodd Triog chwech Jac Codi Baw melyn yn dod i'r Prif Gylch. Roedden nhw'n dawnsio! Rhoddodd Triog sticer seren ar y rhestr cyn mwynhau gweddill y sioe gyda'i ffrindiau.

1. Cyw and the crew had gone to the Royal Welsh Show in Llanelwedd and everyone was very excited. Cyw wanted to play a game and had prepared a list of things to see at the Show.

2. "After you see it, put a star sticker on your list!" she said.
And off everyone went happily.

3. There was a cow on the list. Plwmp, Deryn and Jangl went to the cattle shed. They saw a little calf and a cow. So they put a star sticker next to the cow on the list.

4. There was a sheep on the list. Bolgi and Llew went to the sheep shed. They saw a little lamb and a sheep. So they put a star sticker on the list.

5. There was also a pig and a horse on the list. Cyw saw a pig and Llew saw a horse. So they put two star stickers on the list. But Triog had gone to look for something else.

6. Triog had seen that a yellow JCB digger was on the list. He went to look for it. He saw a blue motorbike and a red tractor but not a single JCB digger.

7. At the end of the afternoon, everyone went to the stand to watch a show in the Main Ring. Everyone sat comfortably. Suddenly, Triog saw six yellow JCB diggers coming into the Main Ring. They were dancing! Triog put a star sticker on the list before enjoying the rest of the show with his friends.